**Aled Roberts**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Jon Heasman
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London
SE1 9HA

14/05/2019

Annwyl Gyfaill,

## Ymgynghoriad: Nation Radio (Ceredigion) - Cais i newid Fformat

Diolch ichi am y cyfle i ymateb i'ch ymgynghoriad. Deallwn fod y cais dan sylw'n yn ymwneud yn bennaf ag addasu ffocws lleol y gwasanaeth a gynigir gan Radio Ceredigion Limited (RCL). Fodd bynnag, hoffem ddefnyddio'r cyfle hwn i amlygu ein pryderon ynghylch dyfodol cynnwys cyfrwng Cymraeg ar yr orsaf.

Hoffem bwysleisio'r pwyntiau canlynol:

- Rydym wedi ein siomi gyda phenderfyniad Ofcom i ddyfarnu trwydded i RCL er i'r cais hepgor unrhyw ymrwymiad i ddarparu cynnwys cyfrwng Cymraeg.
- Wrth i RCL gyflwyno cais am newid fformat, anogwn Ofcom i fachu ar y cyfle a phwyso am ailgyflwyno'r gofyniad am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o dan y drwydded newydd.
- Credwn y byddai hyn yn gyson â'r meini prawf yn adran 105 y Ddeddf Darlledu 1990; a hefyd ymrwymiadau a chanllawiau Ofcom o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Rydym yn awyddus i ddeall yn well sut daeth Ofcom at y penderfyniad i ddyfarnu'r drwydded i RCL er i'r cais beidio â bodloni'r gofynion hyn, a hynny ar gyfer gwasanaeth mewn ardal sydd â chanran uchel o siaradwyr y Gymraeg.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

- Rydym hefyd yn awyddus i ddarganfod sut mae Ofcom yn bwriadu sicrhau nad yw cynnwys cyfrwng Cymraeg yn cael ei lastwreiddio ymhellach wrth i drwyddedau radio eraill gael eu hysbysebu.

1. **Cynnwys cyfrwng Cymraeg Radio Ceredigion**

Mae fformat Radio Ceredigion o dan y drwydded sy'n dal mewn grym yn cynnwys ymrwymiad i ddarparu cynnwys cyfrwng Cymraeg. Hepgorodd cais gweireiddiol RCL gwreiddiol yr ymrwymiad hwn. Er gwaethaf nodi hyn (a diffygion eraill yn y cais) penderfynodd Ofcom ddyfarnu'r drwydded ym mis Rhagfyr 2018. Nid yw'r cais RCL sydd o dan sylw ar hyn o bryd yn cryfhau'r ymrwymiadau o ran y Gymraeg.

Mae darlledu, gan gynnwys ar radio, yn chwarae rhan ganolog wrth hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol ar draws y byd ac yng Nghymru yn arbennig. Er enghraifft, casglodd adolygiad o'r Gronfa Radio Cymunedol yng Nghymru (2012) fod manteision cymunedol y gorsafoedd hyn yn cynnwys 'hyrwyddo gwybodaeth am yr iaith Gymraeg mewn ardaloedd lle mai Saesneg yw'r brif iaith ac annog pobl i'w defnyddio'.

- Rydym wedi ein siomi felly gyda phenderfyniad Ofcom i ddyfarnu trwydded i RCL er i'r cais hepgor unrhyw ymrwymiad i ddarparu cynnwys cyfrwng Cymraeg.

- Wrth i RCL gyflwyno cais am newid fformat, anogwn Ofcom i fachu ar y cyfle a phwyso am ailgyflwyno gofynion am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o dan y drwydded newydd.

2. **Gofynion statudol a chanllawiau Ofcom**

Yn ôl adran 105 Deddf Darlledu 1990, mae'r meini prawf sy'n ymwneud â dyfarnu trwyddedau radio lleol yn cynnwys: *i ba raddau y byddai unrhyw wasanaeth arfaethedig o'r fath yn darparu ar gyfer chwaeth a diddordebau'r bobl sy'n byw yn yr ardal neu'r gymdogaeth a fyddai'n cael y gwasanaeth.*

Byddwn yn dadlau bod chwaeth a diddordebau siaradwyr y Gymraeg yn gwbl berthnasol i'r maen prawf hwn. Yn wir, nododd Ofcom mewn gohebiaeth atom ym mis Tachwedd 2013 fod cynigion ynghylch darlledu yn Gymraeg yn debygol o fod yn berthnasol i'r asesiad o geisiadau gan Ofcom o dan y cymal hwn yn Neddf 1990.

Yn ogystal, yn dilyn trafodaethau gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac yna â Chomisiynydd y Gymraeg, cydnabu Ofcom ym mis Rhagfyr 2013 y byddai'n ddefnyddiol cyhoeddi esboniad ar yr ieithoedd y mae gorsafoedd radio yn darlledu ynddynt, gan gyfeirio yn benodol at yr iaith Gymraeg.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

I'r perwyl hwnnw, diwygiwyd y canllawiau ar fformatau radio, gan ychwanegu: '*Pan fydd gorsaf yn credu bod iaith benodol o ddiddordeb arbennig i bobl leol, gall gynnwys arlwy yn yr iaith honno, yn amodol ar unrhyw ofynion perthnasol o safbwynt Fformat. Enghraifft bwysig o hyn fyddai arlwy yn yr iaith Gymraeg, sy'n iaith swyddogol yng Nghymru'*.

- Credwn y byddai cryfhau gofynion ar RCL i ddarparu cynnwys cyfrwng Cymraeg yn gyson â'r meini prawf yn adran 105 y Ddeddf Darlledu 1990; a hefyd ymrwymiadau a chanllawiau Ofcom.

**3. Cwestiynau am broses Ofcom**

O ystyried y gofynion a'r canllawiau uchod, mae'n anodd i ni ddeall pam nad oedd y Gymraeg yn ystyriaeth mwy allweddol wrth ddyfarnu trwydded ar gyfer gwasanaeth yng Ngheredigion, sef awdurdod lleol lle mae dros 47 y cant o drigolion yn medru'r Gymraeg yn ôl Cyfrifiad 2011. Mae hyn yn enwedig oherwydd nad oes unrhyw ofyniad am gynnwys cyfrwng Cymraeg chwaith yn fformat yr unig orsaf radio masnachol lleol arall yng Ngheredigion – Heart (Gogledd a Chanolbarth Cymru). Pryderwn fod hyn yn golygu nad yw siaradwyr y Gymraeg yn cael eu gwasanaethu gan orsaf leol arall.

- Rydym yn awyddus felly i ddeall yn well sut daeth Ofcom at y penderfyniad i ddyfarnu'r drwydded i RCL er i'r cais hepgor yr ymrwymiad i ddarparu cynnwys cyfrwng Cymraeg, a hynny ar gyfer gwasanaeth mewn ardal sydd â chanran uchel o siaradwyr y Gymraeg.

- Rydym hefyd yn awyddus i ddarganfod sut mae Ofcom yn bwriadu sicrhau nad yw cynnwys cyfrwng Cymraeg yn cael ei lastwreiddio ymhellach wrth i drwyddedau radio eraill gael eu hail-hysbysebu.

**4. Sylwadau i gloi**

Hyderwn y bydd ein sylwadau uchod o ddiddordeb i chi a byddem yn gwerthfawrogi eich ymateb iddynt. A minnau newydd gychwyn fy swydd fel Comisiynydd y Gymraeg buaswn yn croesawu'r cyfle i gyfarfod i drafod y materion hyn a'r camau nesaf.

Yr eiddoch yn gywir,



Aled Roberts
**Comisiynydd y Gymraeg**